

## Siglenni Eifion ac Alun



Siglen Lwyd ar Afon Ffyddion yn Niserth, 12 Chwefror 2010. Eifion Griffiths



Siglen Fraith Ardal Llyn Brenig, 13 Mehefin. Alun Williams

*siglen lwyd, siglen las, brith y fuches llwyd, tinsigl lwyd, sigldin lwyd, shigwti lwyd, gwingdin y dwr, sigldin y gwys, brith y fuches, sigl-i-gwt, sigldin y gwys, tinsigl brith, brith yr oged, sigwti fach y dwr, siglen, brith yr had, llwyd y baw, pioden fach yr afon.*


Dyma rhai o'r enwau a gasglodd Dewi Lewis ar gyfer ei ddwy gyfrol Enwau Adar a Rhagor o Enwau Adar a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch yn 1994 a 2006. Mae nhw mewn print o hyd. Pa rai sy'n perthyn i'ch ardal chi?

### O lygad y ffynnon

Ym Mwletin 19 adroddwyd y stori hon gan Wil Evans yn ail law. Dyma fynd i lygad y ffynnon, sef papur bro Y Glorian 2010, a chael ei adroddiad cyflawn o'r digwyddiad: "Bore oer iawn oedd hi ar 8fed Ionawr, 1957 a minnau'n trafellio o Langefni i gyfeiriad Llanfaethlu pan welais aderyn bychan mewn trafferthion ar fin y ffordd; sylweddolais yn syth bin bod un adain wedi derbyn niwed go arw. Bum allan o hydion yn ceisio ei ddal, ac wedi llwyddo, ei osod yn ofalus mewn bocs bychan i fynd ag o adra. Roedd un adain yn hongian yn llipa o'i ochor a sylweddolais ei fod yn un o deulu'r Brasiaid (Buntings) ond ni allwn benderfynu'n siwr pa un ohonynt. P'run bynnag, adef a ni a gosod y 'deryn mewn cawell pwrpasol gan ofalu fod ganddo fwyd a diod mewn lle cyfleus. Aeth rhai dyddiau heibio cyn i mi benderfynu dangos y 'deryn i'm cyfaill T. G. Walker, Ysgol Henblas, yntau wedyn yn fy siarsio i'w ddangos i Charles Tunnicliffe, yr artist adnabyddus oedd yn byw ym Malltraeth. Drannoeth, es i weld yr artist a'i wraig Winnie yn 'Shorelands', Malltraeth. Doedd yr un o'r ddau wedi gweld y math hwn o dderyn o'r blaen a mawr oedd eu diddordeb ynddo. Penderfynwyd fod rhaid creu llun ohono a gadewais ef ym Malltraeth am ddiwrnod neu ddau er mwyn i'r artist enwog gofnodi llun ohono. Daethant i'r penderfyniad fod un adain wedi ei thorri'n ddrwg iawn ac mai'r Bras Bach oedd yr aderyn dan sylw, ac nad oedd yr un o'r ddau wedi gweld un erioed o'r blaen. Gwnaethpwyd lluniau o'r aderyn prin. Pan elwais i gyrchu'r deryn yn ôl, dywedodd Tunnicliffe ei fod wedi cario allan hen arferiad cefn gwlad ei gartref yn Sir Amwythig i geisio penderfynu rhyw y deryn bach. Defnyddiwyd nodwydd ddrwg gyffredin a'i hongian wrth edau dros y deryn. Dywedodd bod

modd penderfynu drwy symudiadau'r nodwydd - "Fel hyn," meddai'r artist, "y byddai teuluoedd ffermydd o gwmpas fy nghartref yn penderfynu p'run ai ceiliog ynte iar fyddai'r cyw yn yr wy."

Y Bras Bach yw'r lleiaf o'r holl dylwyth, yn mesur rhyw 13cm. Mae ei liwiau o frown a du yn ei wneud yn anodd i'w weld a gellir yn hawdd fethu a gwahaniaethu rhyngddo a Bras y Cyrs (Reed Bunting). Bu'r aderyn fyw am yn agos i ddwy flynedd mewn adardy yng nghwmni rhai adar eraill. Yr ydym yn ffodus iawn ym Môn fod y Cyngor Sir wedi cynhyrchu llyfr rhyfeddol gyda'r teitl Adar Mon gan Peter Hope Jones a Paul Whalley - llyfr dwyieithog gwerth chweil yn llawn o ffeithiau adaryddol. Fe gofnodir ynddo ddarganfod y Bras Bach hwn yn Llanddeusant, ynghyd ag un record arall ar Ynys y Moelrhoniaid ar 25 Medi 1961. Aderyn arall o'r un teulu yw'r Bras Melyn (*Yellow Hammer*) ond wrth yr enw 'Dinas Felen' y byddwn ni yn ei adnabod".





**Nadroedd brithion**

**Siaced hud o grwyn nadroedd** *In looking up another word in Chambers' Scots Dictionary I came across a word which might just have the most specialised meaning in any language: warlock-fecket, 'a magic jacket woven from the skin of water-snakes at a certain period of a March moon'. The existence of this word is a reminder that, contrary to common belief the grass-snake or water-snake does in Britain occur sporadically in Scotland (and in northern England), not only in the south of England - though of course famously not in Ireland where there are no native snakes. References in Gaelic place-names to nathair may be to this snake which likes shallow water and wetland for feeding and dry warm slopes for nesting, and not necessarily to the adder which keeps to the dry ground. It is tempting to see an inflated reference to Natrix natrix, usually larger than the adder, as a possibility for Scots names such as Drakemyre - 'dragon myre', which would have been natural habitat for a creature which must have become much rarer as lowland pools and myres were drained in recent centuries.*

Bill Patterson, scotplace@yahooogroups.co.uk (diolch i Ifor Williams am dynnu'r sylw i Llên Natur)

**Neidr fraith Cwm Gwendraeth** Rydym yn byw ym Mhenbryn, Heol yr Eglwys Gorslas, Llanelli. Tynnwyd y llun



acw yn yr ardd gefn a chae go wyllt drws nesa - a digon o wair! [neidr wair yw enw arall arno]. Cymydog yw'r fffotograffydd wedi dwli ar nadroedd - Winsey Taylor. Mae'r ardd yn agos i Lyn Llech Owain - digon o fywyd gwyllt yno. Ken Williams

**...a Sain Ffagan** Dyma gyw neidr fraith a dynnwyd 23 Tach

1997 yn ngerddi Sain Ffagan, Caerdydd. Sylwch ar y dorch felen am ei wddf - nodwedd sydd yn rhoi ei enw amgen "ringed snake" i hon yn Saesneg. Am drafodaeth am y dyddiad hwyr gweler y Bwletin nesaf. Dewch ag ychwaneg o gofnodion - hen a newydd.



**Dyma garreg fedd i gi o'r enw Clwyd...**



...a fu farw ym 1849 ar dir Castell y Waun, ger Wrecsam. Sylwch ar y mwsog yn tyfu o fewn y llythrennau. Dwi'n siŵr bod y ci hwn wedi cael mwy o barch gan yr arglwydd na'r gweision a fu'n ei fwydo. Llundain a sylw gan Gwyn Williams

**Symbylu da...eto**

"Ymddengys fod rhyw berthynas neilltuol rhwng y gerdinen a da corniog. Clywais rai yn dywedyd flynyddoedd yn ôl yn sir Gaerfyrddin mai â gwialen gerdinen y dylid gyrru da; na wnâi cerdinen ddim gadael gwrym ar groen anifail corniog er ei daro'n galed â hi. Ond â ffon onnen yn gyffredin y gyrrir da i'r ffair, ac am yr onnen y mae traddodiad yn nwyreinbarth y sir na wna ddim niwed i'r creadur". Cofnod o wefan Llên Natur

**Gornchwiglen a'r dylluan**



Sylwch ba mor fawr yw ei gopa erbyn y dyddiad hwn. Yn ôl y gwyn ar blu'r adain, cyw yn aeddfedu yw hwn.

Yn ôl rhyw hen chwedl, roedd y gornchwiglen yn arfer nythu yn y coed fel adar eraill... a'r dylluan (twyll-Lleu, o chwedl Blodeuwedd) yn nythu ar y llawr. Un diwrnod perswadiwyd y gornchwiglen gan y dylluan i gyfnewid eu llefydd nythu, ac felly y bu. Ond yn fuan iawn fe welodd y gornchwiglen ei bod wedi gwneud camgymeriad mawr...

Llun: Eifion Roberts 22 Chwefror 2010, Morfa Conwy.

ac ers hynny mae hi yn gweiddi ar y dylluan i newid nôl - 'NEWID, NEWID' yw ei chri. Sion Roberts

**Mwy o enwau Dewi:** hen het, cornicyll, gwae fi (fel pee-wit y Saesneg), criglen y gornwich, chwilgorn y gwynt,

**Cwmp ac imp y dail**

Manon Lewis ar Galwad Cynnar bore 6 Mawrth 2010 yn son bod blinder y corff yn dilyn "cwmp ac imp y dail" yn ôl ei nain o ardal Carreglefn, Môn.

## Llyn Nantlle ISAF



Dyma lithograff gan C. Haghe o'r Wyddfa o lan llyn isaf Nantlle a ddylunwyd yn 1854. Yn 1884 torrodd y dŵr i mewn i chwarel Dorothea, ac o'r herwydd, yn 1883 dechreuodd y gwaith o wagio'r llyn. Dyma'r olygfa a baentiodd Richard Wilson a Turner. Holais yr hanesydd Dafydd Gwyn: "gwelir ager-beiriant yn codi ar y chwith yn Nghloddfa'r Lôn, a osodwyd ym 1840-41, a thomennydd yn ymestyn allan i'r dde. Erbyn arolygiad ordnans 1889, mae'r llyn wedi mwy neu lai diflannu".

Pa un o'r ddau llyn gwreiddiol, yr "isaf" a'r "uchaf" yw Llyn Baladeulyn tybed, a beth yw'r gwahaniaeth rhwng Llyn Nantlle a Llyn Baladeulyn - os oes gwahaniaeth? Dyma ddywed Twm Elias: "Mae 'bala' yn golygu lle mae afon yn llifo allan o llyn - fel gweli yn 'Y Bala', ac mae'r elfen 'deulyn' yn ei leoli rhwng y ddau llyn 'decini'. Felly, priodol yw gofyn ai rhan o bentre' Nantlle yw Baladeulyn? Meddai Wicipedia: "Ar un adeg roedd dau llyn yma, ond gyda datblygiad y diwydiant llechi sychwyd Llyn Nantlle Isaf i geisio lleihau llifogydd yng ngweithfeydd Chwarel Dorothea gerllaw. Mae cysylltiadau â chwedl Math fab Mathonwy; rhwng y ddau llyn y cafodd Gwydion hyd i Leu Llaw Gyffes ar ffurf eryr. Yn ddiweddarach, roedd Marged uch Ifan yn cadw tafarn gerllaw".

**Trychineb arall yn 1884:** Ochertyre, Crieff, 26 Ionawr 1884: *An exceptionally stormy week ends today with the lowest unchallenged pressure reading ever recorded in the British Isles - 925.6 mbar. A violent gale ensues, blowing down a million trees on one Scottish estate alone*

Woodward A. & Penn R., *The Wrong Kind of Snow* (Hodder & Stoughton)

## O ddyddiadur y Warden



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Allt y Benglog; 26 Chwefror 2010 SH606238: Yr arwydd cyntaf i mi weld eleni o flodyn benywaidd collen ar fin agor [gweler isod]. Cynffonau wyn bach yn gollwng paili wythnos a hanner yn ôl. Dau dalp o gen *Lobaria pulmonaria* [llabed yr ysgyfaint] wedi disgyn oddi ar onnen fawr. Wedi gosod un ar fonyn onnen arall gerllaw, ac am chwilio am gartref i'r llall adre, er nad yw trawsblaniadau fel hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn fy mhrofiad i. Lefel pH y rhisgl yn holl bwysig mae'n debyg cyn iddo hyd yn oed dechrau ystyried cymryd at ei le! Dwi ddim gwaeth a thrio.

Paul Williams, Warden CCGC

**Fflamau bach cochion** Yn nofel D H Lawrence "Women in Love" cyfeiriodd Ursula at flodau benywaidd y gollen fel "fflamau bach cochion".



## O Sianel Llên Natur

I weld yr ar arlwy newydd ewch i

<http://www.llennatur.com/cy/node/136>

**Drudwennod rhyfeddol Aberystwyth.** Ym mha gyfnod neu flwyddyn y sylwyd cyntaf ar glwydfa ddrudwennod Aberystwyth. Ewch i Fwletin 4 i weld hanes clwydfeydd Cymru yn 1933...does dim son amdani'r adeg honno.

**Dirgelwch y gwningen** Roedd gweld y clip am y gwningen yn fy atgoffa fi o'r broblem gefais yma am 2-3 blynedd yn ôl. Cwningen yn dod yma o'r cae ac yn tyllu o dan fy nionod i a phan es i yno wedyn mewn hanner awr roedd y twll wedi ei gau. Fedrwn i ddim deall beth oedd yno ar y pryd gan na welais gwningen o gwmpas ond bore wedyn gwelais y genawes yn tyllu'n union yr un lle a be ddaeth allan ond 6 o gywion. Fedrwn i ddim credu ei bod wedi claddu'r rhai bach fel hyn gan na chlywais na gweld am hyn cynt.

Tom Jones

**Bydd croeso mawr i'ch clipiau fideo amgylcheddol (llai na 10 munud yr un cofiwch). Mae gennym sianel ar 'You Tube' - cysylltwch os oes gennych gyfraniad.**




The clean white *Cumulus* clouds drifting across Mon against an eggshell blue sky - an early promise of Spring to come after the coldest winter since 1978-79. The increasing warmth of an early March sun has warmed the ground sufficiently to allow enough convection to build cumulus. There is a gentle SW breeze (a rare wind direction in this cold winter, there were only 8 days with SW winds in the whole winter), and the clouds are moving from left to right. No cloud over the cold Irish sea (too cold for convection currents), then as the air moves across Mon the first clouds form, getting bigger and bigger as the ground heats up away from the coast, resulting in a classic cloud street.

Tynnwyd y llun gan DB ar y 2 Mawrth 2010. Y sylw gan Huw Holland Jones

*G ŵ y l B a d a r n 1 7 E b r i l l*

## Gwell marw na 'maeddu



"kentoc'h mervel eget bezañ saotret"  
"Potius mori quam fœdari"


Au cours d'une chevauchée, le Roi Breton Conan Meriadec aperçu dans les roseaux aux abords fangeux une forme blanche qui allait et venait. Youenn Kermorgen (gyda diolch i Dominig Kervegant) I ddarlenn y gweddill yn Ffrangeg ewch i gronfa Llên y Pethau Byw ar ein gwefan a chwiliwch am Conan Meriadec.

Wrth iddo farchogaeth heibio afon fechan un diwrnod cafodd sylw Conan Meriadec, Brenin Llydaw, ei dynnu at anifail bach lliw eira yn yr hesg yn mynd yn ôl a blaen wrth geisio croesi'r afon. Daliodd Conan ei geffyl yn ôl i edrych, ac fe welodd y creadur yn ceisio croesi ar frigyn rhy wan i'w gynnal - ac ymddangosai'n llawn ofn y byddai'n disgyn i'r llaid. Cododd y creadur ei lygaid fel petai'n dyheu am gymorth. "Paham y mae cymaint o ofn ar y creadur" meddai Conan wrth ei gydymaith. "Fy mrenin" meddai, "ermin yw hwn. Ni chafodd ei frifo - mae arno ofn baeddu ei ffwr gwyn difrycheulyd yn y baw wrth groesi'r afonig". "O Ryfeddod o Burdeb" meddai Meriadec, "mae anrhydedd yn galw arnaf i'w achub a'i amddiffyn".

Fel petai'r carlwm wedi deall y sgwrs rhwng y ddau ddyn ac wedi gwerthfawrogi daioni Conan, rhedodd ar hyd y fraich yr estynnodd y brenin ato, a chuddiodd ym mhylgiadau ei fantell. Dan deimlad a chan fwytho'r creadur bach dywedodd Conan "Fel hyn mae hi am fod, well gen ti farw na chael dy ddifwyno" "*Kentoc'h mervel eget bezañ saotret*". O hyn ymlaen dyma fydd arwyddair y Llydawyr, a thithau ermin fach fydd yr ymgnawdoliad byw ohono".

Pa chwedl Gymraeg y mae hwn yn eich atgoffa o hono tybed?

## Gwanwyn hwyr



Dyma graff o fesuriadau Dyn Tywydd Llên Natur, Huw Holland Jones. Cymerodd y mesuriadau 20cm. o dan wyneb y pridd pob dydd ers 2002. Wrth ymestyn y llinell goch yn ôl i le mae'n cyffwrdd y llinell felen, meddai Huw, gwelwn fod gwanwyn eleni bythefnos dda yn hwyrach na'r cyffwrdd o'i fesur wrth godiad tymheredd y pridd....yn y Waunfawr o leiaf

## Eira Ebrill 1908



"Arwydd o Eira" gan Gill Brown (2010)

"4th week of April 1908 - the series of snowstorms which visited nearly all parts of the British Isles was probably unprecedented for so late a date in spring. In early afternoon of 23rd a cold rain gave place to snow and lasted without cessation for 16 hours.. 24th the country around Herts was covered with snow to depth of 8" .

British Birds 2 1908

23 Ebrill 1908 Snowing at intervals all m[orning]. and a[fternoon]. Snowing heavily in night.

Llyfrau Nodiadau Arthur Lockwood)

## Dyma un eryr llwglyd iawn gyfaill...!



Meddai Bill Weaver, un o gydnabod yr artist-blodau Doreen Hamilton o Fôn sydd wedi dangos ei gwaith yn y Bwletin fwy nac unwaith: "Ever wonder just how big a Golden Eagle is? This should give you all an idea". Tynnwyd y lluniau gan heliwr gyda ffôn symudol fach yn Montana, Canada yn ddiweddar.

Diolch i'r heliwr, Bill, Doreen, a Wil Williams am sicrhau bod y lluniau gwych hyn yn gweld golau dydd.

Oes gennych chithau gyfresi o luniau i rannu ym Mwletin Llen Natur?